Ffolio

CWESTIYNAU CYFFREDIN

ffilm CYMRU WALES

BBC cymru wales

BBC ARTS

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

PRYD FYDD Y CEISIADAU'N AGOR AC YN CAU AR GYFER CYLCH 1?

Bydd ceisiadau'n agor ar 18 Rhagfyr ac yn cau ar 3ydd Chwefror am 17:30pm.

PRYD CAIFF PENDERFYNIADAU EU GWNEUD AR GEISIADAU AR GYFER CYLCH 1?

Bydd eich cais yn cael ei adolygu gan banel Ffolio, ac os cewch eich dewis i'r rhestr fer, cewch eich gwahodd i ddatblygu eich syniad. Ar ôl cael tri diwrnod o hyfforddiant a chymorth mewnol, bydd eich syniad datblygedig yn cael ei roi yn ôl i'r panel, a fydd yn gwneud penderfyniadau comisiynu, sy'n derfynol.

Dylech ddisgwyl gwybod beth yw canlyniad eich cais erbyn 29 Chwefror.

PWY FYDD YN EDRYCH AR FY NGHAIS?

Cynrychiolwyr o Ffilm Cymru, BBC Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru ac o leiaf un asesydd allanol.

BETH YW ROLAU FFILM CYMRU, BBC CYMRU A CHYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU AR FFOLIO?

Ffilm Cymru sy'n gyfrifol am bopeth cyn y penderfyniadau comisiynu terfynol, felly dylech siarad â nhw am eich cais, unrhyw ddigwyddiadau hyfforddiant neu allgymorth ac unrhyw gwestiynau sydd gennych wrth i chi symud drwy'r broses ddatblygu. BBC Cymru sy'n arwain y gwaith o gynhyrchu'r ffilmiau a chewch eich rhoi mewn cyswllt â'ch cynhyrchydd yno os cewch eich comisiynu. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ariannu Ffolio gyda'r BBC.

HYD Y FFILMIAU?

Bydd y gweithiau ffilm rhwng 90 eiliad a 5 munud o hyd, ond byddwn yn ystyried gwaith episodig hyd at 5 munud hefyd.

OES MODD I MI WELD ENGHREIFFTIAU O'R MATH O FFILMIAU SY'N GWEITHIO'N DDA?

Oes – chwiliwch am BBC New Creatives neu am Screengrabbed ar yr iPlayer.

DYDW I DDIM WEDI GWNEUD GWAITH FFILM NA SAIN O'R BLAEN: OES MODD I MI WNEUD CAIS?

Oes! Rydym yn annog unrhyw un sydd â syniad da i wneud cais waeth beth yw eich cefndir. Bydd holl aelodau creadigol Ffolio yn derbyn hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud darn o waith proffesiynol.

RWYF WEDI CYFARWYDDO FFILM NEU RAGLEN A GAFODD EI HARIANNU A/NEU EI SGRINIO GAN SEFYDLIAD DIWYDIANT FFILM NEU DELEDU: OES MODD I MI WNEUD CAIS?

Na, ond cadwch lygad am 'Beacons', cynllun ffilmiau byrion blynyddol Ffilm Cymru, ein mentrau datblygu ffilmiau hir a chyfleoedd comisiynu yn BBC Cymru.

A FYDDAF YN BERCHEN AR FY FFILM NEU FY NGWAITH SAIN?

Byddwch yn berchen ar yr eiddo deallusol yn y ffilm neu'r gwaith sain ac, ar ôl cyfnod 'dal yn ôl' (rhwng 3 mis ac 1 flwyddyn, yn dibynnu a fydd y BBC yn darlledu eich gwaith), bydd modd i chi ei rannu a'i hyrwyddo.

PA GYMORTH SYDD AR GAEL?

Os yw eich syniad ar y rhestr fer, cewch hyfforddiant am ddim a mynediad at fwrsariaeth ar gyfer costau fel teithio, gofal plant neu ddehonglwr. Os caiff eich syniad ei gomisiynu, bydd gennych gyllideb o hyd at £5,000 ar gyfer cynhyrchu'r ffilm, mentor diwydiant pwrpasol yn ogystal ag adnoddau pwrpasol y BBC a FfCW, a mynediad at fwrsariaeth ar gyfer costau fel teithio neu ofal plant sy'n gysylltiedig â chwblhau'r ffilm.

FYDDA I'N CAEL FY NHALU?

Cynllun datblygu a hyfforddi talent yw hwn, yn hytrach na chynllun comisiynu. Daw pob cost cynhyrchu allan o'r gyllideb ar gyfer y ffilm, ond bydd pob gweithiwr creadigol a gomisiynir yn derbyn ffi yn unol â'u cyllideb gynhyrchu.

A YW'R CAM O GYFLWYNO CAIS AM DDIM?

Ydy.

PWY YW'R MENTORIAID?

Os caiff eich prosiect ei ddewis i gael ei gomisiynu, yna caiff Mentor ei benodi ar eich cyfer.

Bydd y Mentor yn weithiwr proffesiynol o'r diwydiant creadigol y gallwch drafod syniadau creadigol â nhw, ac a all eich helpu i gyflawni gwaith i safon ddarlledu.

FAINT O WYBODAETH SYDD EI HANGEN ARNOCH YN Y CAIS?

Mae angen i chi ateb pob cwestiwn yn y ffurflen ac eithrio'r cwestiynau deunyddiau ategol; gallwch ddarparu'r rhain fel atodiadau e-bost. Bydd angen i chi ddarparu cynnig creadigol o hyd at 500 o eiriau a bywgraffiad 250 gair. Bydd hefyd rhywfaint o wybodaeth fonitro i'w darparu.

A OES MODD I MI GYFLWYNO MWY NAG UN CAIS?

Rydym eisiau clywed eich syniad gorau a gofynnwn i chi gyflwyno un cais yn unig mewn un cylch. Fodd bynnag, os nad ydych yn siŵr pa syniad i'w anfon atom neu os hoffech drafod hyn yn fanylach, anfonwch e-bost atom: ffolio@ffilmcymruwales.com.

RWY'N GYMRO/CYMRAES OND YN SEILIEDIG Y TU ALLAN I GYMRU; OES MODD I MI WNEUD CAIS?

Mae Ffolio yn canolbwyntio ar weithwyr creadigol sy'n seiliedig yng Nghymru ond mae cyfleoedd eraill Ffilm Cymru ar gael i dalent sydd wedi'u geni yng Nghymru neu sy'n seiliedig yng Nghymru. Mae cynlluniau tebyg i Ffolio i'w cael yn Lloegr (New Creatives), yr Alban (Now & Next) a Gogledd Iwerddon (Two Minute Masterpiece).

RWY'N DOD O'R UNDEB EWROPEAIDD; OES MODD I MI WNEUD CAIS?

Oes, cyhyd â'ch bod yn breswylydd yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

RWY'N DOD O'R TU ALLAN I'R UNDEB EWROPEAIDD; OES MODD I MI WNEUD CAIS?

Oes, cyhyd â'ch bod yn breswylydd yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

MYFYRIWR YDW I; OES MODD I MI WNEUD CAIS?

Oes. Gallwch wneud cais naill ai yn ardal eich cartref neu yn eich lle addysg, ond dim ond un cais y gallwch ei wneud. Fodd bynnag, ni allwn ariannu gwaith sy'n rhan o'ch gradd/cwrs.

A ALLAF I WNEUD CAIS GYDA GWAITH AR Y GWEILL?

Ni allwch wneud cais gyda phrosiect sydd wedi dechrau ffilmio neu sydd wedi'i gwblhau ond gallwch ymgeisio gyda syniad rydych eisoes wedi bod yn ei ddatblygu sydd heb fod â phartneriaid eraill yn ymwneud ag ef.

RYDW I'N GWEITHIO; OES MODD I MI WNEUD CAIS?

Oes. A gallwn fod yn hyblyg wrth benderfynu ar oriau/dyddiau hyfforddiant a chynhyrchu.

AM BA HYD Y MAE ANGEN I MI FOD WEDI BOD YN BYW YNG NGHYMRU?

Cyhyd â'ch bod yn breswylydd presennol, rydych yn gymwys.

A OES MODD I MI GAEL RHYWFAINT O HELP GYDA'M CAIS?

Oes, anfonwch e-bost i ni ar ffolio@ffilmcymruwales.com neu ffoniwch ni ar 02921679369 a gofynnwch am reolwr Ffolio.

OES MODD I NI WNEUD CAIS FEL TÎM?

Oes, ond rhaid i bob aelod o'r tîm gynnwys bywgraffiad (a dolenni, os yw'n briodol) a dylid cael un aelod o'r tîm i arwain a fydd yn cynnwys eu manylion cyswllt. Rhaid i bob aelod o'r tîm fodloni'r meini prawf cymhwysedd (seiliedig yng Nghymru, yn 18 oed neu'n hŷn, heb eto wneud ffilmiau byrion proffesiynol, rhaglenni teledu na ffilmiau hir).